Archwilio Cymru
Audit Wales

# Addasiadau tai

Cyngor Dinas Casnewydd

Gorffennaf 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 8 |
| Argymhellion | 15 |
| Atodiadau | 16 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 17 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 19 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Oddeutu 15 mlynedd yn ôl, fel llawer o gynghorau eraill yng Nghymru, fe wnaeth Cyngor Dinas Casnewydd (y Cyngor) drosglwyddo ei stoc dai i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) er mwyn iddynt hwy ei rheoli. Golyga hyn fod y broses o ddarparu addasiad i gartref yn wahanol i bobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i gymdeithas dai o'i gymharu â pherchen-feddianwyr a phobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat.

2 Fe wnaethom ni fwrw golwg ar sut y mae'r Cyngor yn darparu addasiadau tai ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi sy'n cael eu rhentu'n breifat. Fe wnaethom adolygu dull y Cyngor, y modd y mae'n darparu addasiadau a'i drefniadau monitro.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae addasiadau tai'n golygu newidiadau i gartref sy'n ei gwneud hi'n haws i blant, pobl ifanc ac oedolion symud o gwmpas. Gallant helpu i atal cwympiadau neu leihau neu liniaru'r angen am ofal ffurfiol a derbyniadau diangen i leoliadau gofal. Gallai enghreifftiau o addasiadau tai gynnwys:

- gosod rampiau neu ganllawiau;
- ychwanegu lifft risiau neu lifft cadair olwyn;
- gosod cawod â mynediad gwastad neu sedd gawod; a
- lledu drysau fel bod lle i gadeiriau olwyn fynd drwyddynt.

4 Fel arfer bydd y Cyngor yn cynnal asesiad i ddeall anghenion gofal a chymorth i helpu i benderfynu a yw'r rhain yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer darparu gwasanaethau. Os ydynt, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i drefnu neu ddarparu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny. Gallai hyn gynnwys trefnu addasiadau tai neu ddarparu offer i helpu plant, pobl ifanc ac oedolion i aros gartref.

5 Mae'n allweddol bod addasiadau'n cael eu darparu mor gyflym â phosibl i helpu pobl i barhau i fyw gartref yn ddiogel ac yn annibynnol. Mae oedi'n golygu nad yw pobl yn gallu cyflawni tasgau beunyddiol neu eu bod yn wynebu risg o gwympiadau a bod angen cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus eraill.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 Ar y cyfan, canfuom fod y Cyngor yn darparu gwasanaeth addasiadau tai ymatebol, gyda threfniadau gweithredol cryf, gwybodaeth glir ar gyfer y cyhoedd a threfniadau da ar gyfer gweithio mewn partneriaeth rhwng timau. Fodd bynnag, er bod amseroedd aros wedi gwella, maent yn dal i fod yn sylweddol ac nid yw'r Cyngor yn defnyddio ei ddata addasiadau tai i oleuo ei waith cynllunio adnoddau ac mae adroddiadau'n canolbwyntio ar allbynnau yn hytrach nag effaith a gwerth am arian.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

7 Rydym wedi cyflwyno dau argymhelliad i'r Cyngor. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Rhagweld y galw yn y dyfodol i oleuo gwaith cynllunio adnoddau; ac
- Adrodd ar berfformiad i ddangos effaith addasiadau tai a'u gwerth am arian.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerodd y Cyngor i gwblhau Grant Cyfleusterau i'r Anabl fel a ganlyn:

- 2023-24 – 511 o ddiwrnodau
- 2024-25 – 342 o ddiwrnodau
- 2025-26 – 313 o ddiwrnodau

Fe ostyngodd ceisiadau a gymeradwywyd o **125** yn **2023-24** i **80** yn **2024-25**, tra bo nifer y ceisiadau dilys wedi aros yn sefydlog fwy neu lai, gan awgrymu pwysau yn y cam cymeradwyo neu o ran capasiti'r system ehangach.

Ar yr un pryd, fe arhosodd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd yn sefydlog fwy neu lai (**124** yn **2023-24** a **123** yn **2024-25**), tra bo cyfanswm gwerth grantiau a gwblhawyd wedi cynyddu o **£1.18 miliwn** i **£1.32 miliwn**. Mae hyn yn adlewyrchu cost gyfartalog uwch ar gyfer grantiau a gwblhawyd, sef **£10,737**, i fyny o **£9,518** yn y flwyddyn flaenorol.

Fe gwblhaodd y gwasanaeth Tasgmyn **1,095** o dasgau yn **2024-25** ac fe gyflawnodd amser darparu cyfartalog o **14.8** o ddiwrnodau, yn erbyn targed o **15** o ddiwrnodau gwaith.

Canran yr ymgeiswyr bodlon ar ôl i addasiad gael ei wneud

- 2023-24 - 94%
- 2024-25 - 98%

# Ein canfyddiadau

## Yr hyn sy'n gweithio'n dda

### Mae gan y Cyngor ddull eglur, sydd wedi datblygu'n dda, o ddarparu addasiadau tai

#### Dull ataliol

8 Mae'r Cyngor yn amlwg yn cydnabod arwyddocâd a manteision ataliol addasiadau tai. Dangosir hyn trwy ei amcan llesiant, 'Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Chymunedol o Ansawdd'. Mae'r amcan hwn yn cynnwys cam i gynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth a chael mynediad at gymorth ymyrryd-yn-gynnar a chymorth ataliol. Mae'r Tîm Addasiadau hefyd yn eistedd o fewn gwasanaeth Atal a Chynhwysiant y Cyngor. Mae cynllun y gwasanaeth 2025-26 yn amlygu y gall addasiadau tai atal derbyniadau i'r ysbyty a galluogi unigolion i fyw yn fwy annibynnol.

9 Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am y galw cyfredol am addasiadau. Mae'n monitro'r math o addasiad y mae'n ei ddarparu bob blwyddyn, gyda gwybodaeth yn dyddio'n ôl i 2015-16. Rhennir yr addasiadau hyn yn rhai bach, canolig a mawr ac mae'r wybodaeth yn cynnwys nifer y rhai a ganslwyd oherwydd profion modd. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y galw yn y dyfodol i oleuo ei waith cynllunio. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan bod y Cyngor yn disgwyl i'r galw am addasiadau gynyddu, gan gynnwys achosion mwy cymhleth.

## Canllawiau Eglur

10 Caiff dull y Cyngor o ddarparu addasiadau tai ei nodi mewn ystod o ddogfennau gweithredol a pholisi. Mae'r rhain yn cynnwys Gweithdrefn Tîm Addasiadau a Pholisi Addasiadau sydd wedi cael ystyriaeth gan y pwyllgor craffu perthnasol. Mae gweithdrefnau wedi'u dogfennu'n tywys staff trwy'r broses a gallant helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaeth cyson.

11 Mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth eglur, hygyrch ar gyfer preswylwyr. Mae hyn yn cynnwys pwy sy'n gymwys, pa grantiau sydd ar gael a sut i ymgeisio. Mae canllaw ar-lein yn egluro pob cam o'r broses a beth all ymgeiswyr ei ddisgwyl. Mae'r Tîm Addasiadau'n gwneud mynediad yn symlach trwy ddefnyddio mwy o brosesau digidol, ond mae gwybodaeth ar gael ar bapur hefyd ar gyfer y rhai y mae ei angen hynny arnynt. Mae bod â gwybodaeth eglur, hygyrch yn helpu ymgeiswyr i ddeall y broses yn ystod pob cam ac yn eu helpu i baratoi ar gyfer addasiad i'w cartref.

## Gweithio gydag eraill

12 Mae gan y Cyngor ddull integredig o ddarparu addasiadau tai. Mae'r Tîm Addasiadau'n gweithio'n agos gyda'r timau Therapi Galwedigaethol i asesu anghenion pobl a dewis yr addasiadau mwyaf priodol. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid iechyd i flaenoriaethu asesiadau brys ac achosion cymhleth megis gofal lliniarol. Mae timau therapi galwedigaethol wrthi'n gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu asesiadau ymhellach, sy'n dangos ymrwymiad ar y cyd i wella'n barhaus.

13 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Gofal a Thrwsio am 25 mlynedd ac ers mis Ebrill 2022 maent wedi bod yn cydweithio i ddarparu mân addasiadau a gwasanaeth tasgmon ymatebol. Ei nod yw helpu pobl i adael yr ysbyty ac atal derbyniadau i'r ysbyty trwy ddarparu ymateb cyflym, yr un diwrnod weithiau, ar gyfer tasgau bychain megis gosod llenni, rheiliau a blychau cloi. Mae gan y gwasanaeth broses atgyfeirio, safonau gwasanaeth a thargedau perfformiad eglur. Yr amser darparu cyfartalog oedd 14.8 diwrnod yn erbyn targed o 15 diwrnod, am gost o £99,703.

14 Mae'r Cyngor yn cadeirio Grŵp Adnewyddu ac Addasiadau rhanbarthol De Cymru. Mae'r grŵp hwn yn helpu timau addasiadau tai ledled y rhanbarth i rannu arfer a thrafod materion cyffredin. Mae hefyd yn helpu i ddwyn manteision ymarferol. Er enghraifft, fe arweiniodd trafodaethau mewn cyfarfod diweddar at benderfyniad gan y Cyngor i ymuno ag ymarfer caffael a fydd yn ehangu'r ystod o opsiynau sydd ar gael ar gyfer estyniadau.

## Monitro data ac ansawdd gweithredol

15 Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn i wirio ansawdd ac amseroldeb pob addasiad. Mae hyn yn cynnwys:

- pennu cyfarwyddiadau a safonau eglur ar gyfer contractwyr, y mae swyddogion yn eu monitro trwy wiriadau ar y safle;
- cynnal arolygiadau a gwiriadau iechyd a diogelwch ar safleoedd mewn perthynas â'r holl addasiadau; a
- chymeradwyaeth rheolaeth adeiladu lle y bo angen.

16 Mae'r Cyngor yn casglu data ar ei weithgarwch addasiadau tai. Mae hyn yn cynnwys nifer yr atgyfeiriadau, graddfeydd amser a chostau. Mae'r tîm addasiadau'n defnyddio'r data yma i fonitro gweithgarwch a pherfformiad gweithredol. Er enghraifft, mae swyddogion yn tracio costau y cynlluniwyd ar eu cyfer a chostau gwirioneddol ar gyfer pob addasiad i helpu i ddeall amrywiannau cyllidebol. Maent hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn mesurau mewnol ac yn adrodd wrth Lywodraeth Cymru ar berfformiad.

17 Mae'r Cyngor hefyd yn casglu data i'w helpu i ddeall a yw'n cyflawni'r deilliannau a ddymunir ar gyfer defnyddwyr unigol y gwasanaeth. Ar ddechrau'r broses, mae'r asesiad therapi galwedigaethol yn casglu gwybodaeth am anghenion ymgeiswyr a'r deilliannau a ddymunir ganddynt. Ar y diwedd, mae'r Cyngor yn casglu adborth defnyddwyr y gwasanaeth ar y deilliannau a'u profiad. Mae hyn yn cynnwys effaith addasiadau ar ymdeimlad defnyddwyr y gwasanaeth o annibyniaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn casglu adborth dilynol wedi i ddefnyddwyr y gwasanaeth gael mwy o amser i ddefnyddio'r addasiad. Bydd casglu adborth dilynol fesul cam yn ei helpu i ddeall a yw addasiadau'n parhau i gyflawni eu deilliannau bwriadedig dros y tymor canolig a hir.


# Yr hyn y mae angen iddo wella

## Mae gan y Cyngor amseroedd aros sylweddol i gwblhau Grantiau Cyfleusterau i’r Anabl ac nid yw’n defnyddio ei ddata addasiadau tai i oleuo ei waith cynllunio adnoddau a’i adroddiadau

### Amseroedd aros

18 Rhaid i rai ymgeiswyr aros cryn dipyn o amser am Grant Cyfleusterau i’r Anabl. Fe ddatblygodd y Cyngor ôl-groniad o achosion ar ôl Covid-19. Er bod arosiadau’n dal i fod yn uchel, mae perfformiad i gwblhau Grant Cyfleusterau i’r Anabl yn gwella, fel y dengys **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: nifer cyfartalog y diwrnodau i gwblhau Grant Cyfleusterau i’r Anabl**




19 Mae’r Cyngor yn dadansoddi ac yn deall y rheswm dros yr amseroedd aros hir ond nid yw cynlluniau gwasanaethau’n cynnwys camau gweithredu i ymdrin â hwy.

20 Mae'r Cyngor yn un o ddau gyngor yn unig yng Nghymru sy'n dal i gymhwyso prawf modd ar gyfer ymgeiswyr am Grant Cyfleusterau i'r Anabl dros 19 oed. Dros y tair blynedd ddiwethaf, bu prawf modd yn ofynnol ar gyfer 29% o'r ceisiadau. Fodd bynnag, mae oedi cyn cael gwybodaeth ariannol a dogfennau gan ymgeiswyr agored i niwed i ateb gofynion y prawf yn arafu ceisiadau ac yn cynyddu amseroedd aros.

21 Mae capasiti cyfyngedig ym maes Therapi Galwedigaethol yn achosi oedi o ran cynnal asesiadau amserol ar ddechrau'r broses addasiadau. Mae therapyddion galwedigaethol yn eistedd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, tra bo'r Tîm Addasiadau'n eistedd o fewn y gwasanaeth Atal a Chynhwysiant. Nid oes gan y Cyngor unrhyw therapyddion galwedigaethol sydd wedi'u neilltuo i addasiadau tai – mae therapyddion yn gweithio ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn asesu addasiadau mewn cartrefi preifat a chartrefi sy'n eiddo i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gan bod y llwybr addasiadau tai'n rhychwantu gwahanol dimau, ar hyn o bryd nid oes perchnogaeth glir ar y cyfyngiadau hyn o ran capasiti.

22 Gall oedi olygu nad yw pobl yn gallu cyflawni tasgau beunyddiol neu eu bod yn wynebu risg o gwympiadau a bod angen mynediad at wasanaethau cyhoeddus eraill.

## Cynllunio adnoddau

23 Nid yw'r Cyngor yn defnyddio ei ddata addasiadau tai fel rhan o'r drefn arferol i roi cymorth i gynllunio'r gweithlu. O ganlyniad, nid oes gan y Cyngor gynllun eglur ar gyfer y gweithlu sy'n adlewyrchu'r galw gwirioneddol a'r galw a ragwelir am addasiadau tai ac sy'n ymdrin â thagfeydd cyfredol yn y llwybr addasiadau. Ar hyn o bryd, nid yw Cynlluniau Gwasanaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol na Chynllun y Gwasanaeth Atal a Chynhwysiant 2025-26 yn adlewyrchu'r capasiti therapi galwedigaethol y mae ei angen i ddarparu addasiadau tai ar draws y Cyngor a'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. O ganlyniad, nid oes digon o adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer y llwybr addasiadau tai.

24 Nid yw'r Cyngor yn defnyddio ei ddata addasiadau tai fel rhan o'r drefn arferol i roi cymorth i gynllunio'r gyllideb. Er enghraifft, nid yw dyraniadau cyllidebol craidd ar gyfer addasiadau tai'n seiliedig ar ddata ar y galw. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd â'r angen. Yn 2024-25, fe wnaeth y Tîm Addasiadau ddisbyddu ei gyllideb graidd ar gyfer darparu addasiadau erbyn mis Rhagfyr 2024 a bu'n rhaid iddo ddod â chyllid ymlaen o'r flwyddyn ganlynol i gwblhau addasiadau. Nid yw hwn yn ddull cynaliadwy.

## Adrodd ar berfformiad, effaith a gwerth am arian

25 Mae adroddiadau ar berfformiad yn canolbwyntio ar allbynnau byrdymor yn hytrach na deilliannau. Mae adroddiadau cyfredol yn dangos nifer y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwblhawyd a chanran y cwsmeriaid bodlon. Fel a nodir uchod, mae'r Cyngor yn casglu data i ddeall effaith addasiadau tai ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dwyn ynghyd i ddangos effaith. Gallai'r Cyngor wneud mwy i ddangos y gwahaniaeth y mae addasiadau tai'n ei wneud i fywydau pobl ac i ba raddau y maent yn ategu nodau ataliol ehangach y Cyngor, yn enwedig gan bod atal yn thema allweddol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

26 Nid yw'r Cyngor wedi nodi sut y bydd yn asesu gwerth am arian wrth ddarparu addasiadau tai. Mae swyddogion ac aelodau'n deall bod addasiadau'n helpu pobl i fyw'n ddiogel gartref, yn lleihau'r angen am gymorth gofal ac yn lleddfu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Rhwng 2021 a 2025, fe wnaeth y timau therapi galwedigaethol beth gwaith defnyddiol ar osgoi costau. Fe wnaeth hyn amcangyfrif arbedion o ran costau ar becynnau gofal preswyl a gofal yn y cartref o ganlyniad i ddarparu offer neu dechnoleg ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi ehangu'r dull hwn ymhellach. O ganlyniad, nid yw eto'n gallu dangos gwerth am arian addasiadau tai.

## Deall perfformiad partneriaid

27 Nid y Cyngor sy'n gyfrifol am ddarparu addasiadau tai ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi sy'n eiddo i gymdeithasau tai – rôl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yw hyn. Mae'r Cyngor yn cydnabod gwahaniaethau rhwng ei ddull ef a dull Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lleol, gan gynnwys nad yw tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gorfod cael prawf modd. Er ei fod yn gwybod bod tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn wynebu amseroedd aros ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, nid yw'r Cyngor yn monitro pa mor gyflym y mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cwblhau addasiadau. O ganlyniad, nid oes ganddo ddarlun llawn o amseroldeb addasiadau ledled y sir.

# Argymhellion

28 Mae'r argymhellion isod wedi'u bwriadu i gryfhau goruchwyliaeth gorfforaethol a chapasiti'r gweithlu i wella cynaliadwyedd ac amseroldeb y gwasanaeth addasiadau tai.

**A1** Dylai'r Cyngor ddatblygu dealltwriaeth eglur am, a dadansoddiad eglur o'r galw a chapasiti'r gwasanaeth yn y dyfodol dros y tymor canolig a hir. Dylai hyn oleuo:

1.1 cynllun y gweithlu ar gyfer y llwybr addasiadau tai sy'n defnyddio data i adnabod y gweithlu y mae ei angen – gan gynnwys Therapi Galwedigaethol – i ateb y galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol; (**paragraffau 21 a 23**).

1.2 ei ofynion o ran yr adnoddau y mae eu hangen i ateb y galw yn y dyfodol dros y tymor canolig a hir (**paragraff 24**)

**A2** Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei adroddiadau'n dangos effaith a gwerth am arian addasiadau tai, gan gynnwys cyfraniad y gwasanaeth at amcanion ataliol (**paragraffau 25 a 26**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaeth yr archwiliad ystyried a yw trefniadau’r Cyngor ar gyfer addasiadau tai’n cynorthwyo defnyddwyr y gwasanaeth i aros gartref. Roedd hyn yn cynnwys adolygu dull y Cyngor, y modd y mae’n darparu addasiadau tai a’i drefniadau monitro.

Fe gwblhaom ni’r gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn ym mis Ebrill 2026.

## Cwestiynau

Fe waeth yr archwiliad ddefnyddio’r cwestiynau lefel uchel canlynol:

- A oes gan y Cyngor ddull gwybodus ac eglur o ddarparu addasiadau tai sy’n cynorthwyo pobl i aros gartref?
- A yw’r Cyngor yn cyflawni ei ddull o ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i fonitro’r cynnydd a’r effaith wrth ddarparu addasiadau tai i gynorthwyo pobl i aros gartref?

## Meini Prawf

Fe wnaethom ystyried yr adroddiad gan Archwilio Cymru yn 2018 ar Addasiadau Tai i ddatblygu’r meini prawf archwilio. Fe gawsom drafodaethau gyda chynghorau hefyd i gael rhagor o ddealltwriaeth am addasiadau tai.

# Dulliau

Fe wnaethom adolygu dogfennau sy’n ymwneud â’r broses addasiadau tai. Fe wnaethom gyfweld â swyddogion allweddol ac aelodau etholedig. Ni wnaethom gyfweld â rhanddeiliaid eraill sy’n rhan o ddarparu addasiadau tai. Ni wnaethom gysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth ychwaith i gael eu hadborth ar y gwasanaeth a gawsant.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Gwerth am Arian** | Mae a wnelo gwerth am arian â pha un a yw arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r deilliannau bwriadedig am y pris gorau. Cyfeirir at hyn weithiau fel 'cost-effeithiolrwydd' hefyd. Mae gwerth am arian yn gysylltiedig fel arfer â darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rydym wedi crynhoi'r rhain fel:<br>• Darbodaeth – Cael y fargen iawn – sicrhau'r mewnbynnau angenrheidiol, i helpu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig, am y gost isaf posibl.<br>• Effeithlonrwydd – Gwneud pethau'n iawn – gwneud y gorau o'r mewnbynnau i gynhyrchu allbynnau sydd wedi'u bwriadu i gyflawni'r deilliannau bwriadedig.<br>• Effeithiolrwydd – Cael y canlyniadau iawn – cyflawni'r deilliannau bwriadedig ar gyfer y tymor byr a hwy.<br>Mae gan gynghorau ddyletswyddau cyfreithiol sy'n ymwneud â gwerth am arian. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar gynghorau i adolygu i ba raddau y maent yn defnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. |
| **Addasiadau** | Caiff addasiadau eu categoreiddio'n Fân Gymhorthion fel canllawiau a thapiau â liferi, Addasiadau Canolig fel cawodydd â mynediad gwastad, lifftiau grisiau, rampiau, a lledu drysau, neu Addasiadau Mawr fel estyniadau i adeiladau. Mae gwasanaethau arbenigol fel Gofal a Thrwsio Cwm Taf yn darparu ymateb cyflym ar gyfer gwaith llai. |

| | |
|---|---|
| **Asesiad o anghenion** | Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod gan unrhyw un y gall fod arnynt angen gofal neu gymorth hawl i asesiad o'u hanghenion. Mae'r broses hon wedi'i bwriadu i adnabod yr hyn sydd o bwys i chi a pha help all fod ei angen arnoch i gynnal eich annibyniaeth a'ch llesiant. |
| **Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** | Gweinyddir Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gan adran dai eich cyngor lleol. Mae'r rhain yn seiliedig ar brawf modd ar gyfer addasiadau mawr oni bai eich bod yn ymgeisio ar ran plentyn dan 18. Gall y Grant ddarparu cyllid hyd at £36,000. |

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud eu gwaith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.